# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Hyfforddiant Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 2



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn ddilyniant delfrydol ar ôl cwblhau eich cymhwyster Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 1. Byddwch chi'n astudio'r holl agweddau ymarferol a damcaniaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer cymhwyster Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 2.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... Y rhai sy'n dymuno symud trwy lwybrau Cymdeithas Ceffylau Prydain.

... Perchnogion ceffylau angerddol sy'n dymuno datblygu eu sgiliau.

... Unrhyw un sy'n dymuno hyfforddi ar gyfer arholiad Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 2.

... Y rhai sy'n ystyried neu sy'n dymuno dechrau gyrfa yn y diwydiant ceffylau.

**Cynnwys y cwrs**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs rhan-amser hwn, byddwch chi'n datblygu amrywiaeth o sgiliau ymarferol, gan gynnwys:

Symudiadau ysgol farchogaeth sef cerdded, trotian a charlamu
Gweithio mewn sedd ysgafn
Gwaith polion
Marchogaeth dros gwrs sy'n cynnwys ffensys

Wrth i'r cwrs symud yn ei flaen, byddwch chi'n datblygu sgiliau pellach ar dir gwastad a thros ffensys.

Byddwch chi hefyd yn datblygu gwybodaeth eang am ofalu am geffylau, gan gynnwys:

Sgiliau trin
Iechyd ceffylau
Bwydo
Rheolaeth stablau sylfaenol
Cymorth cyntaf ar gyfer ceffylau
Rhaglenni gwaith a ffitrwydd
Cyflwyno ceffylau
Gosod harneisiau
Cludo ceffylau yn ddiogel

I ehangu eich gwybodaeth ymhellach, gallech symud ymlaen i gwrs hyfforddiant Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnodau 3 a 4 (Gofal ac Arwain).

**Gofynion Mynediad**

Er nad oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, dylech chi feddu ar sgiliau marchogaeth digonol, gan gynnwys gallu cerdded, trotion a charlamu yn annibynnol. Mae'n rhaid bod ymgeiswyr yn gallu marchogaeth yn yr awyr agored mewn ardal agored, neidio dros ffensys unigol a chwrs byr o 75cm.

Dylai dysgwyr fod o leiaf 19 oed a disgwylir iddynt fynd i asesiad marchogaeth cyn dechrau'r cwrs.

Sylwer – i sicrhau lles ein ceffylau, mae ein canolfan geffylau yn gweithredu uchafswm terfyn pwysau o 14 stôn. Gall pob ymgeisydd astudio ar opsiwn marchogaeth neu heb farchogaeth ar bob un o'n cyrsiau ceffylau felly ni fydd lle ar y cwrs yn cael ei wrthod.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cwrs hwn gan un o'n hyfforddwyr cymwysedig Cymdeithas Ceffylau Prydain a chaiff ei gynnal gyda'r hwyr.

Bydd angen het farchogaeth sy'n ffitio'n gywir ac amddiffynydd corff sy'n bodloni gofynion diogelwch presennol, esgidiau marchogaeth, jodhpurs, menig a chwip arnoch chi.

Sylwer bod y cwrs hwn wedi'i ddylunio i baratoi dysgwyr ar gyfer cymhwyster Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 2, fodd bynnag, nid yw'r cwrs hwn yn cynnwys yr asesiad